**COFNODION SJR-08-03 (min)**

**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 3 RHAGFYR 2003**

**Amser: 09.30am - 12.30pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Huw Lewis (Dirprwy Weinidog) (tan 11.05am) | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Steven Phillips | Cyfarwyddwr Dros Dro, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Alun Burge | Cyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| Joanna Jordan | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Diogelwch Cymunedol |
| Jan Pickles | Rheolwr Gweithrediadau, Uned Diogelwch Menywod Caerdydd |
| Liz Aiken | Cyfarwyddwraig, Cymorth i Fenywod Caerdydd |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Y Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**09.30am hyd 09.35am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd yn llwyddiant mawr ac y bydd cyfarfod ychwanegol arall ar yr adolygiad polisi yn cael ei gynnal ar 15 Ionawr a fydd yn canolbwyntio ar ryddhau ecwiti.

3. Cafwyd ymddiheuriadau gan Catherine Thomas. Ymddiheurodd Huw Lewis am orfod gadael y cyfarfod yn gynnar. Roedd ganddo gyfarfod arall nad oedd modd ei ail-drefnu. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2003 a 20 Tachwedd 2003 SJR-06-03 (min) SJR-07-03 (min)**

2.1 Gofynnwyd am ddiwygio'r pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 4.3 yng nghofnodion Tachwedd 12 i: "Trefniant dros dro yn y flwyddyn gyntaf a fyddai'n darparu grant cyfalaf fyddai'r cymorth ar gyfer benthyciadau darbodus. Y bwriad yw newid i gymorth refeniw ar ôl hynny."Ar wahân i'r newid hwnnw, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 a 20 Tachwedd.

**Pwynt Gweithredu**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd

**<u>09.35am –10.00am</u>**

**Eitem 3: Adroddiad Ysgrifenedig y Gweinidog**
**SJR-08-03(p.1) Atodiad A, A(1), B, C, D, D(1), 1, 2**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad

2. Yn dilyn sylwadau'r aelodau, meddai'r Gweinidog:

- **Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol -** Bydd yn rhoi adroddiad pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi.

- **Adennill Asedau -** Bydd yn edrych ar y sefyllfa o ran adennill asedau sifil a hefyd p'un a ellid defnyddio arian sydd wedi'i adennill ar gyfer gwasanaethau cynghori.

- **Gwasanaethau Fferyllol Cymunedol -** Bydd yn rhoi'r diweddaraf wedi iddi dderbyn y gwahanol adroddiadau.

- **Camddefnyddio Alcohol -** Bydd yn sicrhau bod modd i Aelodau weld y Cynlluniau Gweithredu lleol ar Gamddefnyddio Alcohol. Mae manylion ynddynt am y targedau a'r gwaith sydd ar y gweill. Ychwanegodd nad oedd ganddi bwer i wahardd pobl rhag hysbysebu alcohol ond, os byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo hynny, byddai'n anfon ei sylwadau at y Llywodraeth Ganolog. Cytunodd y Pwyllgor. Ychwanegodd yr hoffai ystyried y mater o ganiatau trwyddedau ar gyfer yfed alcohol ac adrodd i'r Pwyllgor wedi hynny.

- **Agweddau Gwerth am Arian Trosglwyddo Stoc -** Roedd hwn yn adroddiad pwysig ar yr agweddau gwerth am arian ac er eu bod wedi ceisio sawl gwaith, nid oedd Trysorlys ei Mawrhydi yn gadael i awdurdodau lleol fenthyg yn uniongyrchol o dan reolau PSBR. Ychwanegodd bod yn rhaid i Gymru ganolbwyntio a pharhau i fod yn gadarnhaol ynghylch y manteision a ddaw yn sgil trosglwyddo stoc.

- **Manteision y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yng Nghymru: Adroddiad diwedd blwyddyn 2002 - 2003 -** Bydd yr adolygiad o addasiadau ffisegol gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau Anabledd yn ystyried cysylltu'r rhain â HEES. Ychwanegodd efallai y dylai'r holl nawdd/cymorth a roddir i bobl hyn gael eu cyd-gysylltu fel bod modd asesu'r holl anghenion. O ran targedu, dywedodd fod dadansoddiad arall yn cael ei wneud o ardaloedd uchel eu poblogaeth ond sydd â gwariant cymharol isel ar HEES a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

- **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol -**Nododd y pryder ynghylch camddefnyddio tân gwyllt a byddai'n cynnwys nodyn ar y mater yn ei hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor. Nododd nad oedd y cynnig blaenorol i dynnu budd-daliadau tai oddi ar denantiaid a oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol wedi ymddangos yn y Mesur Tai.

- **Buddsoddiadau Grant Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd -** Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o faterion yn y Cynllun Cymorth Prynu. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi trafod materion tai gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roeddent wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth fanwl. . Bydd y Gweinidog yn darparu nodyn ar y posibiliadau i gamddefnyddio'r Cynllun Hawl i Brynu. Dywedodd y byddai'n ymchwilio i weld faint o dai oedd ar gael i'w rhentu mewn ardaloedd gwledig.

  3.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r Tabl Is-ddeddfwriaeth a oedd yn rhan o'r atodiad i Adroddiad y Gweinidog. Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn ystyried y Ddeddf Diwygio Lesddaliad. Roedd y Gweinidog yn cytuno gyda'r awgrym a dywedodd y byddai'n paratoi nodyn ar agweddau'r ddeddfwriaeth.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol
- Y Gweinidog i roi gwybod sut y bydd y pwer "adennill sifil" yn gweithio a ph'un a ellid defnyddio "asedau sydd wedi'u hadennill" ar gyfer Achosion Sifil a Gwasanaethau Cynghori
- Y Gweinidog i roi adroddiad ar effaith y contractau newydd ar gyfer fferyllwyr a Meddygon Teulu o ran rhoi triniaeth i bobl sy'n camdrin sylweddau
- Y Gweinidog i adrodd ar adroddiad y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM) ar Gyfnewid Nodwyddau a Defnyddio Cyffuriau dan Oruchwyliaeth pan fydd yr adroddiad ar gael
- Y Gweinidog i wneud copi o gynlluniau gweithredu lleol ar gamddefnyddio sylweddau pan fyddant ar gael fel bod aelodau'n cael cyfle i edrych ar y mesurau alcohol.
- Y Gweinidog i roi gwybod i'r llywodraeth ganolog bod y Pwyllgorau'n cefnogi gwahardd hysbysebion alcohol
- Y Gweinidog i ystyried â chyfreithwyr y posibilrwydd o gael awdurdodau trwyddedu i fod yn fwy llym wrth ganiatáu trwyddedau
- Y Gweinidog i roi mwy o wybodaeth am HEES. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o wariant HEES awdurdodau lleol o ran pocedi o amddifadedd ac ardaloedd posibl y gellid eu targedu ymhellach; y diweddaraf ar lefel y cwynion o dan HEES; y diweddaraf ar y materion effeithlonrwydd ynni ehangach sy'n codi yn sgil HEES
- Y Gweinidog i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Bydd yn cynnwys y diweddaraf ar gynigion Llywodraeth y DU ynghylch tân gwyllt
- Y Gweinidog i adrodd yn ôl ar faterion tai cymdeithasol mewn awdurdodau lleol gwledig fel Gwynedd, ac i roi dadansoddiad o dai rhent mewn ardaloedd gwledig
- Y Gweinidog i roi papur ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn sgil y Ddeddf Diwygio Lesddaliad
- Y Gweinidog i adrodd ar achosion o gamddefnyddio'r "hawl i brynu"

**<u>10.00am –11.05am</u>**

**Eitem 4: Cymunedau yn Gyntaf: Cyflwyno Adolygiad y Dirprwy Weinidog SJR-08-03(p.2)**

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog y papur. Roedd am gofnodi ei ddiolch i Sandra Hayes, Cynghorydd Arbennig ar yr Adolygiad, Leon Rees, ei Ysgrifennydd Personol ac yn fwyaf pwysig Cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf a gynorthwyodd gyda'r Adolygiad. Cryfhaodd yr argymhellion a oedd yn yr Adolygiad ac ychwanegodd fod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael cefnogaeth aruthrol a'i bod yn helpu i ddelio â materion yn ymwneud â thlodi ac amddifadedd. Gwahoddodd Aelodau i fynegi'u safbwyntiau.

4.2 Croesawodd Aelodau yr adroddiad cynhwysfawr ac yn arbennig yr argymhellion i symleiddio'r meysydd ariannol a biwrocrataidd. Roeddent hefyd yn teimlo ei bod hi'n bwysig denu ac ennyn ymrwymiad y sector busnes preifat i'r Rhaglen.

4.3 Mewn ymateb i bwyntiau'r Aelodau, dyma ddywedodd y Dirprwy Weinidog:

- Roedd yn derbyn y pwynt ynghylch canllawiau'r CLILC ac y gallai awdurdodau lleol fod am weithio ar eu pennau'u hunain.
- Roedd sefydliadau wedi awgrymu cynnwys cerrig milltir heb eu rhagnodi. Nododd na ddylai'r rhaglen fod yn rhy anhydrin a haearnaidd er bod angen monitro a gwerthuso.
- Rôl awdurdodau lleol yw trefnu cymunedau difreintiedig ond derbyn bod pobl leol yn gwybod beth sydd ei angen a'i eisiau ar gymuned.
- O ran ymrwymiad, nod y rhaglen hon yw helpu i ddod o hyd i atebion parhaol i drechu tlodi yn ein cymdeithas.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac awgrymwyd y dylid defnyddio logo i godi ymwybyddiaeth.
- Roedd yn croesawu awgrymiadau ynghylch ymestyn Cronfeydd Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.
- Mae ardaloedd gwledig yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ychwanegodd fod llawer iawn o amser wedi cael ei dreulio ar Wynedd ac Ynys Môn ac roedd yn cydnabod bod pobl sy'n dioddef tlodi mewn ardaloedd gwledig yn aml yn fwy ynysig a bod llai o wasanaethau cyhoeddus ar eu cyfer nag mewn ardaloedd trefol.
- Mae cymunedau cyfagos yn broblem fawr. Byddai cynnwys mwy o ardaloedd yn gwanhau effaith y rhaglen ac awgrymodd y dylid ail-edrych ar faterion trosffiniol.
- O ran Cronfeydd Adfywio Lleol, nid yw'r arian wedi'i gwtogi, mae gan y cynllun hanes o danwario.
- Nododd y sylwadau ynghylch ennyn ymrwymiad pobl nad ydynt yn bobl bwyllgora. Roedd yn teimlo y dylid annog y gwaith o hyrwyddo pobl ifanc ac y gallai hynny helpu gyda'r agenda ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

- Ar faterion cydraddoldeb, dim ond un enghraifft o grwp ymhlith nifer mewn cymunedau oedd yr enghraifft o glybiau gweithwyr. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

4.4 Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod hi a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r papur ac y byddai'n dweud yng Nghyfarfod mis Ionawr sut y mae'n bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith. Dywedodd hefyd y byddai'n diweddaru'r wybodaeth am recriwtio ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn ystyried gwahodd partneriaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor i weld y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor yng Nghyfarfod mis Ionawr ar weithredu argymhellion adolygiad y Dirprwy Weinidog ar gymunedau yn gyntaf. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod am hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion a geir yn Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o waith adfywio cymunedau

**11.05am –11.15am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 10 munud.

**11.15am – 12.20pm**

**Eitemau 5 a 6: Cyflwyniadau gan Uned Diogelwch Menywod Caerdydd a Chymorth i Fenywod Caerdydd**

1. Penderfynodd y Cadeirydd drafod eitemau 5 a 6 gyda'i gilydd. Croesawodd Jan Pickles, Rheolwr Gweithrediadau Uned Diogelwch Menywod Caerdydd ac fe'i gwahoddodd i wneud ei chyflwyniad. Yna, croesawodd Liz Aiken, Cyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Caerdydd ac fe'i gwahoddodd hithau i wneud ei chyflwyniad. Mae copïau o'r ddau gyflwyniad yn yr Atodiad.
2. Diolchodd y Panel iddynt am eu cyflwyniadau gan ychwanegu eu bod yn drist ein bod yn byw mewn cymdeithas lle mae cymaint o drais yn y cartref a bod mwy o drais yn aml dros gyfnod y Nadolig. Cafodd y ddau gorff (a chanolfannau Cymorth i Fenywod eraill ledled Cymru) eu llongyfarch gan yr Aelodau am eu gwaith. Ar ôl clywed sylwadau penodol ar eu cyflwyniadau, gwnaeth y Panel y sylwadau canlynol:

- Roeddent yn cydnabod y trawma y mae plant yn ei brofi o ganlyniad i drais yn y cartref. Mae hynny'n aml yn arwain at driwantiaeth a "cholli" plant yn y system. Mae dilyn hynt y plant "coll" hyn yn flaenoriaeth ac mae llyfryn yn cael ei lunio ar hyn. Mae angen arian i fynd i'r afael â hyn a hefyd i ddatblygu therapi chwarae ar gyfer plant iau. Mae'n bwysig cofio bod y dyn yn dad ac na fydd yr amseroedd hapus yn mynd yn angof.

- Mae mwy a mwy o alw wedi bod am loches, hynny am fod trais yn y cartref wedi cael mwy o sylw a'r ffaith bod mwy o ddioddefwyr yn dweud "digon yw digon" yn gynt. Gobeithir gallu datblygu lloches i ddioddefwyr sydd â phroblemau meddyliol yn ardal Caerdydd yn fuan. Maent hefyd yn edrych ar ddatblygiadau ar gyfer dioddefwyr sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Mae ar y dioddefwyr hyn angen gofal arbenigol.
- Wrth groesi ffiniau, mae dioddefwyr yn gadael eu hôl ar y ddwy wlad o bobtu'r ffin. Er enghraifft wrth i ddioddefwyr o Lannau Merswy chwilio am lety lloches yng Ngogledd Cymru ond hefyd wrth i ddioddefwyr o ardaloedd Cymraeg eu hiaith fynd i Loegr.
- Mae llawer o fenywod sy'n gweithio ac sy'n dioddef trais yn ei chael hi'n anodd cael budd-dal tai ac felly nid ydynt yn cael aros mewn llety sy'n darparu lloches. Fodd bynnag, mae gan y menywod hyn fel arfer incwm a gallant aros mewn gwesty dros dro i ddianc oddi wrth y sefyllfa.
- Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol i'r syniad o gydweithio rhwng asiantaethau yng Nghaerdydd. Byddent yn falch iawn pe bai hyn yn cael ei ddefnyddio fel model ledled Cymru a'r DU. Nodwyd bod gan holl ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron brif gyswllt ar drais yn y cartref a bod y strategaeth trais yn y cartref wedi cael ei hyrwyddo'n galed gan y Cyfreithiwr Cyffredinol, Harriet Harman AS.
- Dywedwyd bod sesiynau MARAC (Multi Agency Risk Assessment Conferences) wedi bod yn werthfawr iawn - gallai fod gan bob asiantaeth ddarn o wybodaeth am un achos a thrwy ddod ynghyd, mae modd gweld y darlun cyfan.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau ar droseddwyr a rhagwelir y byddant yn cael eu cyflwyno ym Mawrth 2004. Fodd bynnag, mae rhai'n gwrthwynebu hyn.
- I gloi, dywedodd y panel y gallai trais yn y cartref ddigwydd i unrhyw un, unrhyw le, unrhyw bryd. Nid rhywbeth wedi'i gyfyngu i un garfan o bobl ydyw.

1. Ychwanegodd y Gweinidog bod y cyflwyniadau'n amserol iawn gan fod araith y Frenhines wedi tynnu sylw at y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr. Ychwanegodd fod amddiffyn plant mewn sefyllfaoedd o drais yn y cartref yn fater o'r pwys mwyaf a'i fod yn fater yr oedd grwpiau wedi'i godi gyda hi. Cytunodd i ddosbarthu Strategaeth Trais yn y Cartref ar gyfer Cymru Gyfan i'r Pwyllgor a'r cyflwynwyr.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd Jan Pickles a Liz Aiken am eu cyflwyniadau ac am wneud i bobl feddwl.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddosbarthu'r Strategaeth Trais yn y Cartref ar gyfer Cymru Gyfan

**12.20pm - 12.30pm**

**Eitem 7: Blaenraglen waith ddrafft**

**SJR-08-03(p.3) Atodiad**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn nodi gwaith arfaethedig y Pwyllgor yn ystod tymor y Gwanwyn 2004. Dywedodd y caiff yr amserlen gyfnodol ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ond na ddisgwylir unrhyw newidiadau i'r dyddiadau arfaethedig.
2. Dywedodd y Cadeirydd efallai y byddai'n rhaid diwygio'r rhaglen ddrafft i gynnwys y Mesurau a oedd yn Araith y Frenhines i'r Senedd ar 26 Tachwedd ond byddai hyn yn dibynnu ar pryd y byddent yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd y Cadeirydd y byddai unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried a'u cyflwyno fel y bo'r angen.
3. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n trefnu bod gwybodaeth yn cael ei pharatoi ar sefyllfa bresennol y Mesurau sy'n berthnasol i'w phortffolio hi.
4. Cytunodd yr Aelodau.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i drefnu bod gwybodaeth yn cael ei pharatoi ar sefyllfa'r Mesurau sy'n berthnasol i'w phortffolio

**<u>12.10pm - 12.30pm</u>**

**Eitem 8: Adolygiad Polisi: Camddefnyddio Sylweddau a chapasiti'r Canolfannau Triniaeth**

**SJR-08-03(p.4) Atodiad**

8.1 Gan fod y Pwyllgor wedi rhedeg yn brin o amser, dywedodd y Cadeirydd y dylid anfon unrhyw sylwadau at y Clerc yn ystod yr wythnos nesaf. Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr, byddai copi caled o'r papur terfynol yn cael ei ddosbarthu i bob Aelod yn gofyn iddynt ei gymeradwyo cyn diwedd y dydd.

**Pwynt Gweithredu**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r drafft terfynol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr.

Ysgrifenyddiaeth Y Pwyllgorau

Rhagfyr 2003